Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

POLISI CRONFA ARIANNOL WRTH GEFN

CYMRAEG Dysgu Learn

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Fersiwn: Hydref 2023

Cynnwys

Cefndir	2
Diben	3
Cronfa Ariannol Wrth Gefn Addysg Bellach Canllawiau 2023/24	3
Y Gronfa ar gyfer Dysgu Cymraeg	3
Rôl y Darparwyr	4
Rôl y Ganolfan	5
Amserlen Ceisiadau	6
Dyfarnu'r Taliadau – Matrics Sgorio	7
Prosesu'r Taliad	7
Dysgwyr Cymwys	8
Costau Dilys	9
Asesu Ceisiadau	10
Proses Apêl	11
Atodiadau	
Atodiad 1: Cronfa Ariannol Wrth Gefn Addysg Bellach Canllawiau 2023/24	
Atodiad 2: Taflen Gwybodaeth i Ddysgwyr	
Atodiad 3: Ffurflen Gais	

Cefndir

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar 1 Awst 2016 gyda'r bwriad o ddarparu arweiniad strategol i'r maes Dysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn darparu grant i ddarparwyr i ddarparu gwersi dysgu Cymraeg ar draws Cymru. Y Darparwyr yw:

Darparwr	**Ardal**
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Gwynedd, Môn, Conwy
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Dinbych, Fflint, Wrecsam
Dysgu Cymraeg Gwent	Gwent
Dysgu Cymraeg Y Fro	Bro Morgannwg
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Sir Gâr
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Abertawe, Castell Nedd a Phort Talbot
Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr	Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Dinas Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	

Diben

Diben y Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) (Cymru) 2022/23 yw darparu cymorth ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny y gallai ystyriaethau ariannol eu rhwystro rhag cael mynediad i addysg neu sydd, am ba reswm bynnag, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, yn wynebu anawsterau ariannol.

Cronfa Ariannol Wrth Gefn Addysg Bellach Canllawiau 2023/24

Bydd y Gronfa yn cael ei defnyddio yn unol â'r Rheoliadau a gynhwysir yn Atodiad 1.

Y Gronfa ar gyfer Dysgu Cymraeg

Gwerth y gronfa sydd wedi ei gadarnhau ar gyfer y flwyddyn addysgol yn 2023/24 yw £22,000. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fydd yn derbyn yr arian gan Lywodraeth Cymru a'r Ganolfan fydd yn gyfrifol am weinyddu'r arian i'r dysgwr. Dyfernir yr arian i'r Ganolfan yn dymhorol drwy'r rhaniad canlynol:

Blwyddyn Addysgol	Tymor	Swm
2023/24	Tymor 1	£8,800
2023/24	Tymor 2	£6,600
2023/24	Tymor 3	£6,600

Unwaith bydd y gronfa wedi dod i ben byddwn yn hysbysu'r Darparwyr er mwyn gallu rhannu'r wybodaeth gyda dysgwyr sy'n gwneud ymholiadau.

Rôl y Darparwyr

Prif rôl y Darparwyr fydd hyrwyddo y Gronfa ac annog dysgwyr i wneud cais. Disgwylir i bob Darparwr hyrwyddo'r Gronfa er mwyn sicrhau tegwch i Ddysgwyr ar draws Cymru i gael yr un cyfle i wneud defnydd ohoni.

Bydd y Darparwyr yn hysbysu pob Dysgwyr o'r Gronfa wrth iddynt gofrestru/ ymrestru er mwyn sicrhau cynhwysedd a thegwch i unrhyw un allu ystyried gwneud cais.

Gwneir hyn drwy:

- gynnwys gwybodaeth am y Gronfa yn y prosbectws
- gynnwys gwybodaeth am y Gronfa wrth farchnata'r cyrsiau, yn enwedig wrth dargedu grwpiau penodol all fanteisio ar gymorth y Gronfa e.e. ardaloedd difreintiedig
- sicrhau bod pob tiwtor yn derbyn gwybodaeth ac yn deall pwrpas y Gronfa
- gyfeirio at y gronfa yn y sesiwn anwytho ar gyfer pob Dysgwr a darparu gwybodaeth am sut i wneud cais
- sicrhau bod dysgwyr yn gallu trafod anghenion neu dderbyn cyngor am y Gronfa gan aelod o staff perthnasol

Bydd y gwaith yn cael ei oruchwylio gan Gyfarwyddwr YGDCG, a fydd yn gyfrifol am atebolrwydd y Gronfa i Lywodraeth Cymru.

Os na fydd y cais yn gyflawn ac yn cynnwys tystiolaeth lawn a'r manylion cywir, ni ellir gwarantu taliad yn unol â'r amserlen isod.

Bydd y Darparwyr yn sicrhau bod aelod o staff ar gael i gynghori a darparu gwybodaeth i unrhyw Ddysgwr sydd eisiau trafod y Gronfa neu eisiau cymorth wrth wneud cais.

Darperir taflen gwybodaeth a ffurflen gais yn Atodiad 2 ac Atodiad 3. Dim ond y rhain y dylai'r darparwyr eu defnyddio a dim ond ceisiadau ar y ffurflen hon a dderbynnir gan y Ganolfan oddi wrth ddysgwyr.

Rôl y Ganolfan

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fydd yn gweinyddu'r Gronfa Arian Wrth Gefn ar ran y maes Dysgu Cymraeg.

Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn adrodd yn rheolaidd ar wariant y Gronfa i Lywodraeth Cymru.

Bydd awdit o'r gwariant yn cael ei gynnwys fel rhan o archwiliad blynyddol y Ganolfan ac yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon blynyddol.

Bydd adroddiadau tymhorol ar ddefnydd o'r Gronfa yn cael eu darparu i'r Darparwyr er mwyn adnabod os oes defnydd llawn yn cael ei wneud o'r Gronfa neu os oes angen hyrwyddo ymhellach.

Bydd y Ganolfan yn cynnal trafodaethau cyson gyda'r Darparwyr am ddefnydd neu ddiffyg defnydd eu Dysgwyr o'r Gronfa wrth asesu nifer y ceisiadau a dderbynnir o bob ardal.

Cyfrifoldebau

Bydd Swyddog Trefnidaeth y Ganolfan yn gyfrifol am dderbyn y ceisiadau gan y Dysgwyr a chydlynu'r broses dyfarnu.

Y Swyddog Gweithredol Cyllid fydd y prif gyswllt i'r Darparwyr sydd ag unrhyw ymholiadau am y Grant.

Bydd y gwaith yn cael ei oruchwylio gan Gyfarwyddwr YGDCG, a fydd yn gyfrifol am atebolrwydd y Gronfa i Lywodraeth Cymru.

Amserlen Ceisiadau

Bydd angen cyflwyno ceisiadau erbyn y dyddiad cau, fan bellaf, a bydd taliadau yn cael eu prosesu yn unol â'r cynllun.

Os na fydd y cais yn gyflawn ac yn cynnwys tystiolaeth llawn a'r manylion cywir, ni ellir gwarantu taliad.

Blwyddyn Addysgol	Hawliad am y Cyfnod	Dyddiad Derbyn Ceisiadau
2023/24	Tymor 1 (Medi 2023 – Rhagfyr 2023)	01.01.2024
2023/24	Tymor 2 (Ionawr 2024 – Mawrth 2024)	01.04.2024
2023/24	Tymor 3 (Ebrill 2024 – Gorffennaf 2024)	26.07.2024

Noder mai ceisiadau ar gyfer Ysgolion Haf yn unig a dderbynnir ar ddiwedd mis Awst. Os bydd cais am wersi tymhorol yn cael eu cynnwys, ni fydd modd i'r gronfa ad-dalu'r costau.

Dyfarnu'r Taliadau – Matrics Sgorio

Bydd y Ganolfan yn dilyn strwythur o asesu pob cais yn ddiduedd ac yn gyson ar draws Cymru. I'r perwyl hyn bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y matrics sgorio.

Bydd y matrics yn sgorio yn erbyn y math o gymorth y ceisir amdano ynghyd â amgylchiadau penodol yr unigolyn.

Bydd disgwyl i bob cais ymateb i'r gofynion sylfaenol fel lleiafswm.

Bydd y Swyddog Trefniadaeth a'r Swyddog Gweithredol Cyllid yn gyfrifol am yr asesiad cychwynnol yn erbyn y sgorau matrics, a bydd yn cyflwyno'r sgor a'r argymhelliad i ddyfarnu arian i'r unigolyn i Gyfarwyddwr YGDCG, a fydd yn cymeradwyo'r dyfarniadau.

Nid oes gwarant y bydd dysgwyr yn derbyn y symiau sydd wedi nodi yn eu cais. Bydd penderfyniad ar swm y taliad yn cael ei wneud gan Gyfarwyddwr YGDCG, yn unol â'r canllawiau isod:

Cais am swm hyd at (a chynnwys) £50 (mewn tymor)	Taliad Llawn
Cais am swm uwch na £50 (mewn tymor)	Taliad rhannol neu lawn (yn ddibynnol ar y cais)

Prosesu'r Taliadau

Prosesir y taliadau ar raddfa dymhorol i'r dysgwyr, yn unol â'r amserlen a nodir yn yr Amserlen Ceisiadau. Bydd y Ganolfan yn gwirio gyda'r Darparwr fod y dysgwr yn parhau i bresenoli ei hun yn y gwersi drwy ddarparu rhestr o'r dysgwyr sy'n derbyn cymhorthdal yn dymhorol. Cyfrifoldeb y darparwr fydd hysbysu'r Ganolfan os yw dysgwr yn penderfynu peidio parhau gyda'r gwersi.

Dysgwyr Cymwys

Er mwyn bod yn gymwys mae'n rhaid i unigolion gadarnhau eu bod yn cyrraedd y gofynion craidd canlynol:

Sefyllfa	**Tystiolaeth**
Bod posib i fynediad at addysg gael ei rwystro am resymau ariannol, neu eu bod yn wynebu problemau ariannol am unrhyw rheswm, gan gynnwys anabledd corfforol neu feddyliol	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 31 Awst 2023	Ymrwymiad ar y ffurflen gais (dyddiad geni ac oedran)
Yn breswyliwr yn y DU neu'r DE am o leiaf 3 blynedd	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gyda un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Rhif Cofrestru a Chadarnhad gan y Darparwr / Tiwtor

Mae blaenoriaeth yn cael ei rhoi i unigolion yn y sefyllfaoedd canlynol:

Sefyllfa	**Tystiolaeth**
Rhiant gydag anghenion gofal plant	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Rhiant sengl gydag anghenion gofal plant	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Gofalwyr, a fu'n derbyn gofal, neu ar brawf, neu ddysgwr yr ystyrir eu bod o dan risg am reswm arall	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Ar incwm isel, gan gynnwys rhai sydd ddim yn gymwys i gael cymhorthdal incwm, neu ddysgwyr o deuluoedd ar incwm isel *	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Preswylio mewn ardal â lefel gyffredinol o 190 pwynt neu is ar restr sgorio WIMD 2014 y Llywodraeth	Gwiriad o god post yn erbyn WIMD 2014 y Llywodaeth – Swyddog Gweithredol Cyllid i wirio
Yn wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd bydd eu teuluoedd yn peidio a derbyn 'elfen plant y credyd cynhwysol' ar 1 Medi sy'n dilyn 19eg pen-blwydd	Ymrwymiad ar y ffurflen gais

*Mae posib i'r Ganolfan ofyn am brawf eich bod ar incwm isel fel rhan o'n proses archwilio, ond nid oes rhaid darparu tystiolaeth gyda'r cais. Dylai ddysgwyr felly sicrhau fod y prawf ar gael pe byddai gofyn amdano.

Costau Dilys

Bydd y Ganolfan yn ystyried ceisiadau am y costau isod:

Cais	**Disgrifiad**	**Tystiolaeth**	**Uchafswm Dyfarniad**
Gofal Plant	Gellir hawlio hyd at £5 yr awr am hyd at 3.5 awr am gost gofal plant pob gwers / sesiwn	Derbynneb gan ofalwr cofrestredig (gan nodi eu rhif cofrestredig). Manylion nifer y gwersi/ sesiynau.	£17.50 y plentyn pob gwers/sesiwn (3.5 awr x £5 yr awr)
Ffi Arholi	Ffi Arholiad Lefel Mynediad	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (yn nodi'r swm)	£20
Ffi Arholi	Ffi Arholiad Lefel Sylfaen	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (yn nodi'r swm)	£22
Ffi Arholi	Ffi Arholiad Lefel Canolradd	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (yn nodi'r swm)	£24
Ffi Arholi	Ffi Arholiad Lefel Uwch	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (yn nodi'r swm)	£32
Adnoddau - Cyfarpar / deunyddiau dysgu	Adnoddau hanfodol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth, megis llyfrau, dyfeisiadau digidol, mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer dosbarthiadau rhithiol	Derbynneb(au) yn nodi'r adnoddau a'r symiau	£200 mewn cyfnod o 12 mis
Costau Teithio - Milltiredd	£0.25 y filltir am y siwrnai i wers/sesiwn (hyd at 60 milltir fesul siwrnai)	Llenwi'r Ffurflen Gostau Teithio gyda dyddiadau'r siwrneau a manylion y daith	£15 fesul siwrnai (hyd at 60 milltir x £0.25)
Costau Teithio - Bws / Trên	Cost siwrnai i fynychu gwers/sesiwn	Copïau o'r tocynnau	£15 fesul siwrnai
Costau Parcio	Cost Parcio wrth fynychu gwers/sesiwn	Copïau o'r tocynnau parcio, yn cynnwys y dyddiad a'r symiau	£5 y wers/ sesiwn
Anableddau	Hyd at £10 y wers/ sesiwn i helpu gyda chostau ychwanegol oherwydd anableddau	Llythyr swyddogol yn darparu tystiolaeth	£10 y wers/ sesiwn

Ni all y gronfa gael ei defnyddio ar gyfer ad-dalu'r costau canlynol:

- Ffi Cwrs
- Dirwyon
- Costau heb eu talu eto
- Blaendaliadau
- Costau heb y dystiolaeth gywir (nodir yn y tabl uchod)

Asesu Ceisiadau

Nod y Ganolfan fydd asesu a phenderfynu ar lwyddiant y ceisiadau sy'n dod i law yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Dysgwyr yn derbyn dyfarniad a'r taliadau (os yn llwyddiannus) heb oedi. Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r drefn a ddilynir:

	Cam	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Dysgwr i gyflwyno cais i'r Ganolfan	Erbyn y dyddiad cau ar gyfer y tymor a nodir yn yr Amserlen Ceisiadau	Dysgwr
2	Sgorio cais	O fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Swyddog Trefniadaeth / Swyddog Gweithredol Cyllid
3	Cymeradwyo cais	O fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Cyfarwyddwr YGDCG
4	Talu'r dysgwr	Dyddiad a nodir yn yr Amserlen Ceisiadau	Swyddog Gweithredol Cyllid
5	Adborth i'r dysgwyr aflwyddiannus	O fewn 20 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Swyddog Trefniadaeth
6	Adrodd ar y dyfarniadau	Diwedd y tymor	Swyddog Trefniadaeth / Swyddog Gweithredol Cyllid

Proses Apêl

Gall Dysgwr apelio yn erbyn y penderfyniad drwy wneud hynny yn ysgrifenedig. Yn y man cyntaf, darperir adborth iddynt ar y matrics sgorio a'r rheswm pam na fuont yn llwyddiannus.

Mae'n bosib i ddysgwyr apelio'r penderfyniad, drwy ail gyflwyno eu cais, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol.

	Cam	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Dysgwr i gyflwyno cais apel i'r Ganolfan	Dyddiad cau yw 15 diwrnod gwaith o dderbyn adborth aflwyddiannus	Dysgwr
2	Llythyr / e-bost yn diolch am y cais	O fewn 5 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Swyddog Trefniadaeth
3	Ail sgorio cais	O fewn 10 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Swyddog Gweithredol Cyllid
4	Cymeradwyo cais	O fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Cyfarwyddwr YGDCG
5	Talu'r dysgwr	O fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Swyddog Gweithredol Cyllid
6	Paratoi adborth i'r rhai aflwyddiannus	O fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Swyddog Trefniadaeth
7	Adrodd ar y dyfarniadau	Yn dilyn taliad	Swyddog Trefniadaeth / Swyddog Gweithredol Cyllid

Apeliadau Pellach

Os nad yw'r Dysgwr wedi llwyddo unwaith eto, gellir ysgrifennu yn ffurfiol at Brif Weithredwr y Ganolfan yn nodi sail eu hapêl. Dylid gwneud hyn o fewn 10 diwrnod i dderbyn dyfarniad yr ail gais. Bydd penderfyniad y Prif Weithredwr yn derfynol.

	Cam	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Dysgwr i gyflwyno apêl pellach i'r Ganolfan	Dyddiad cau yw 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr ail adborth aflwyddiannus	Dysgwr
2	Asesiad	O fewn 5 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Prif Weithredwr
3	Hysbysu o ddyfarniad terfynol yr apêl	O fewn 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Prif Weithredwr

Atodiad 1 - Cronfa Ariannol Wrth Gefn Addysg Bellach Canllawiau 2023/24

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CRONFA ARIANNOL WRTH GEFN

CANLLAWIAU ADDYSG BELLACH

2023/24

Cynnwys Tudalen

Cyflwyniad

Diben y Gronfa

Grwpiau â blaenoriaeth

Dysgwyr a rhaglenni cymwys

Pethau y caniateir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar eu cyfer

Pethau na chaniateir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar eu cyfer

Penderfynu ynghylch taliadau

Taliadau i ddysgwyr

Cyngor i ddysgwyr

Taliadau i sefydliadau

Atebolrwydd

Atodiadau

Atodiad A: Canllaw Cymhwysedd Dysgwyr
Atodiad B: Tystysgrif Archwilio 2022/23

CYFLWYNIAD

1. Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth am bwrpas y Gronfa Ariannol wrth Gefn a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer y cyllid, ac yn gosod gofynion mewn cysylltiad â'r trefniadau hynny. Mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon wrth osod eu polisïau cyllido, asesu cymhwysedd ac anghenion dysgwyr unigol ac wrth wneud taliadau.

2. Daw'r ddogfen hon i rym o 1 Awst 2023 ac mae'n gymwys mewn cysylltiad â'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Awst 2023 ac yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2024.

3. Ystyr "Sefydliad" yn y ddogfen hon yw sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n cael cyllid gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

4. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r trefniadau a nodir yn y ddogfen hon, eu dirymu neu ychwanegu atynt unrhyw bryd.

DIBEN Y GRONFA

5. Diben y Gronfa Ariannol wrth Gefn yw darparu cymorth ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny y gallai ystyriaethau ariannol eu rhwystro rhag cael mynediad i addysg bellach, neu sydd, am ba reswm bynnag, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, yn wynebu anawsterau ariannol.

GRWPIAU Â BLAENORIAETH

6. Wrth benderfynu pa ddysgwyr unigol, o blith y rhai sy'n gymwys, i'w cefnogi, mae'r Gweinidog yn disgwyl i Sefydliadau roi blaenoriaeth i helpu dysgwyr sy'n perthyn i'r grwpiau blaenoriaeth canlynol:

    i dysgwyr y mae arnynt angen cymorth gyda chostau gofal plant, yn enwedig rhieni unigol;

    ii dysgwyr a fydd yn cyrraedd 20 mlwydd oed cyn cwblhau eu cyrsiau Safon Uwch neu gyrsiau AB eraill, ac sy'n wynebu anawsterau ariannol penodol, oherwydd bydd eu teuluoedd yn peidio â chael budd-dal plant ac ychwanegiadau dibyniaeth yn eu Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Cynhwysol ar gyfer y dysgwyr hyn, o 20fed pen-blwydd y myfyriwr ymlaen;

    iii dysgwyr sy'n ofalwyr (sy'n darparu cymorth di-dâl i rywun na allai ymdopi heb y cymorth hwn); plant sy'n derbyn gofal, plant fu mewn gofal, neu ar brawf, neu yr ystyrir eu bod o dan risg am reswm arall;

iv dysgwyr ar incwm isel, gan gynnwys dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm na Chredyd Cynhwysol, neu ddysgwyr o deuluoedd ar incwm isel, gan gynnwys y teuluoedd hynny sy'n cael Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Cynhwysol a'r rheini sydd â dibynyddion nad ydynt yn ennill;

v dysgwyr sy'n preswylio fel arfer mewn ardal â lefel gyffredinol o 190 neu'n is yn ôl y fersiwn ddiweddaraf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[1];

vi dysgwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd bydd eu teuluoedd yn peidio â chael elfen plant y credyd cynhwysol ar 1 Medi sy'n dilyn 19eg pen-blwydd y myfyriwr.

7. Atgoffir sefydliadau nad yw'r ffaith bod unigolyn yn perthyn i grŵp blaenoriaeth ynddo'i hun yn sail dros wneud dyfarndal o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

DYSGWYR A RHAGLENNI CYMWYS

8. Rhaid i ddysgwyr fodloni'r meini prawf oedran a phreswylio a ganlyn i fod yn gymwys am gymorth y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Ni chaniateir gwneud taliadau o dan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ac eithrio i fyfyrwyr cymwys.

9. Rhaid i ddysgwr fod yn 16 oed neu'n hŷn ar 31 Awst 2023 ac yn dilyn rhaglen lawn neu ran-amser yn y Sefydliad (gan gynnwys rhaglenni Cymraeg i Oedolion) i fod yn gymwys am gymorth yn y flwyddyn academaidd 2023 i 2024.

10. Rhaid i ddysgwyr hefyd gwrdd â'r amodau preswylio yn y **Canllaw Cymhwysedd Dysgwyr** ar gyfer cyllid ôl-16. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau manwl ar yr amodau preswylio sy'n berthnasol wrth benderfynu ar gymhwysedd dysgwr unigol ar gyfer cyllid ôl-16, ac fe'i hatgynhyrchir er gwybodaeth yn Atodiad A.

PETHAU Y CANIATEIR DEFNYDDIO'R GRONFA ARIANNOL WRTH GEFN AR EU CYFER

Grantiau a benthyciadau

11. Caiff Sefydliadau ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys ar ffurf grantiau neu fenthyciadau byrdymor. Mater i'r Sefydliad yw penderfynu ar swm y grant neu'r benthyciad byrdymor i'w ddyfarnu i fyfyriwr cymwys.

[1] Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar 1 Mai 2019 a bydd yn gymwys o 1 Medi 2021 i 31 Awst 2022 (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | LLYW.CYMRU)

Ffioedd dysgu a chostau sy'n gysylltiedig â chyrsiau

12. Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd dysgu ar gyfer unrhyw ddysgwr cymwys, ac eithrio mewn achosion pan fo myfyriwr cymwys rhan-amser yn ymgymryd â modiwl blasu addysg uwch sy'n gyfwerth â rhwng 10% a 50% o gwrs addysg uwch llawnamser. Mae disgresiwn gan Sefydliadau hefyd i ddarparu cyllid i ddysgwyr cymwys sy'n ymgymryd â modiwlau blasu addysg uwch sy'n llai na 10% o gwrs addysg uwch llawnamser neu'n llai na 12 credyd ac sydd fel arall yn bodloni meini prawf cymhwysedd y Sefydliad ar gyfer cymorth gyda modiwl blasu.

13. Caniateir defnyddio cyllid i gynorthwyo dysgwyr cymwys i dalu ffioedd sy'n gysylltiedig â chyrsiau, megis ffioedd arholi a chofrestru cyrff dyfarnu, a chost eitemau o gyfarpar neu ddeunyddiau sy'n hanfodol er mwyn i'r myfyriwr cymwys gymryd rhan yng ngweithgareddau cwrs. Fel rheol, dylai unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau o'r fath a brynir gan Sefydliad o dan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn barhau'n eiddo i'r Sefydliad.

14. Caiff Sefydliadau wneud taliadau i ddysgwyr cymwys hefyd at ddiben eu cynorthwyo gyda chostau eraill sy'n gysylltiedig â chyrsiau. Mae costau o'r fath yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â gofal plant, teithio, llyfrau a theithiau maes ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r costau hynny.

Costau sy'n deillio o anableddau

15. Caiff Sefydliadau wneud taliadau at ddiben cynorthwyo dysgwyr cymwys anabl a dysgwyr cymwys sydd â dibynyddion anabl. Mae hyn yn cynnwys taliadau mewn cysylltiad â chostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r anabledd ond nid yw'n gyfyngedig i'r taliadau hynny. Pan fo'r Sefydliad wedi prynu cyfarpar ar gyfer dysgwr anabl cymwys, dylai'r cyfarpar hwnnw barhau'n eiddo i'r Sefydliad, oni bai bod y cyfarpar wedi ei deilwra i ddiwallu anghenion unigol y dysgwr.

Trefniadau swmpbrynu

16. Caiff Sefydliadau wneud trefniadau swmpbrynu gyda chwmnïau cludiant lleol a darparu cyfarpar neu wasanaethau am brisiau is i ddysgwyr cymwys y byddai arnynt angen cymorth, fel arall, gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

17. Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddisodli trefniadau swmpbrynu presennol a ariennir o gyllid y Sefydliad ei hun neu i gyfrannu atynt.

18. Pan fo Sefydliad yn dod i drefniant swmpbrynu, rhaid cynnal trywydd archwilio eglur, fel y gellir gwybod pwy yw'r dysgwyr sy'n fuddiolwyr a swm y cyllid a ddyrannwyd o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Rhaid i'r cofnodion ddangos hefyd fod y mwyafrif o'r dysgwyr sy'n cael budd o'r trefniant swmpbrynu yn ddysgwyr cymwys sy'n wynebu caledi ariannol ac y

byddai'n anodd iddynt gael mynediad i'w hastudiaethau heb gymorth o'r fath.

PETHAU NA CHANIATEIR DEFNYDDIO'R GRONFA ARIANNOL WRTH GEFN AR EU CYFER

19. Rhaid peidio defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd dysgu, ac eithrio yn unol â pharagraff 12 uchod.

20. Ni ddylai sefydliadau ddefnyddio Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn i gefnogi cynlluniau hawl sy'n seiliedig ar brawf modd (h.y. cynlluniau grant/bwrsari hawl).

21. Ni ddylid defnyddio Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn i ddarparu cyfleusterau grŵp neu gymunedol, na gwneud addasiadau i adeiladau, a dylai eitemau mawr o gyfarpar sy'n cael eu prynu at ddefnydd dysgwyr unigol barhau'n eiddo i'r Sefydliad. Gall Sefydliadau ddefnyddio'r arian i ddarparu gwasanaethau cludiant; fodd bynnag, ni ddylai gwasanaethau o'r fath gynnwys costau cyfalaf, fel prynu cerbyd.

22. Mae dirwyon a blaendaliadau yn disgyn y tu allan i gwmpas y cyllid, er enghraifft dirwyon am ddychwelyd llyfrau llyfrgell yn hwyr neu ddirwyon disgyblu eraill; blaendaliadau ar loceri, cardiau adnabod, allweddi, cardiau llyfrgell a chyfarpar sy'n cael eu had-dalu'n llawn ac eithrio mewn achosion o ddifrod neu ladrad.

PENDERFYNU YNGHYLCH TALIADAU

23. Mater i bob Sefydliad fydd penderfynu ar ei feini prawf a'i weithdrefnau ar gyfer ystyried ceisiadau a gwneud taliadau i ddysgwyr cymwys, yn amodol ar y canllawiau hyn ac unrhyw ganllawiau eraill gan y Gweinidog.

24. Dylai Sefydliadau fod â pholisïau ysgrifenedig sy'n egluro eu trefniadau gweithredol ar gyfer dyfarnu Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn. Dylai'r rhain fod ar gael yn eang i'r holl randdeiliaid.

25. Rhaid i Sefydliadau werthuso ceisiadau am gyllid o dan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn fesul achos unigol yn unol â'u polisi ysgrifenedig ar gyfer dyrannu cyllid, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 23. Ym mhob achos, rhaid i'r Sefydliadau asesu cais dysgwr ar sail y dystiolaeth a ddarperir gan y dysgwr hwnnw a'i amgylchiadau unigol. Dylai dysgwr gael ei hysbysu pa un a yw ei gais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus ai peidio o fewn pedair wythnos wedi i'r Sefydliad gael y cais hwnnw.

26. Wrth ystyried ceisiadau, rhaid i Sefydliadau ystyried amgylchiadau ariannol y dysgwr ac argaeledd cymorth o ffynonellau eraill megis y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Cynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru neu gynllun cyfatebol arall a gyllidir gan y llywodraeth, Cynnig Gofal Plant

Llywodraeth Cymru, Cymhorthdal Incwm a Chredyd Cynhwysol, a chymorth a ddarperir gan awdurdod lleol y dysgwr.

27. Atgoffir Sefydliadau mai bwriad y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yw rhoi cymorth i ddysgwyr unigol mewn achosion lle sefydlir yr angen ac na ddylid ei ddefnyddio fel arf marchnata. Dylai Sefydliadau fod yn ymwybodol o'r cymorth a gynigir gan awdurdodau lleol a sefydliadau cyfagos a dylent sicrhau nad yw Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn yn cael eu defnyddio i gynnig cymhellion gyda'r bwriad o ddenu dysgwyr o sefydliadau eraill.

28. Wrth benderfynu ar daliadau a'u gwneud, dylai Sefydliadau roi sylw i unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn cysylltiad â gofynion a osodir gan Bennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

TALIADAU I DDYSGWYR

29. Rhaid i Sefydliadau ymdrin â thaliadau dysgwyr yn brydlon, gan gadw diben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn mewn cof, a'r amgylchiadau sy'n arwain at galedi ariannol.

30. Ni chaiff Sefydliadau ymrwymo i wneud unrhyw daliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn i ddysgwyr.

31. Er bod modd cytuno mewn egwyddor ar daliadau o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, **ni** ddylid eu talu nes bod y dysgwr wedi dechrau ar ei raglen astudio.

32. Caiff Sefydliadau wneud taliadau i ddysgwyr cymwys naill ai mewn cyfandaliad neu mewn rhandaliadau.

Taliadau i ddysgwyr mewn cysylltiad â chyfarpar a deunyddiau

33. Caiff dysgwr cymwys wneud cais am gyllid mewn cysylltiad â chyfarpar a/neu ddeunyddiau hanfodol y mae wedi eu prynu er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Os yw cais y dysgwr yn llwyddiannus, caiff Sefydliad ad-dalu'r costau y mae'r myfyriwr yn mynd iddynt wrth brynu'r cyfarpar a/neu'r deunyddiau yn llawn neu'n rhannol.

Taliadau yn ystod cyfnodau pan fo astudiaethau wedi eu hatal dros dro

34. Caiff Sefydliad wneud taliadau i ddysgwyr cymwys sydd wedi atal eu hastudiaethau dros dro am resymau'n ymwneud ag iechyd, yr angen i ofalu am eraill, beichiogrwydd, neu unrhyw amgylchiadau eraill y mae'r Sefydliad yn barnu eu bod yn briodol, ar yr amod bod y Sefydliad wedi ei fodloni nad yw'r dysgwr wedi tynnu'n ôl o'r cwrs nac wedi gadael y cwrs a'i fod yn bwriadu dychwelyd ato.

Apelau

35. Rhaid i Sefydliadau fod wedi sefydlu a chyhoeddi gweithdrefn apelio ar gyfer achosion pan fo myfyrwyr wedi ymgeisio'n aflwyddiannus am gymorth o dan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylai'r weithdrefn hon fod yn eglur, a rhaid rhoi gwybod i ddysgwyr bod hawl ganddynt i apelio. Cyfrifoldeb y Sefydliadau sy'n gweinyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yw penderfyniadau ynglŷn â chymhwysedd a dyfarndaliadau. Mater i'r Sefydliadau yw ystyried pob achos a datrys apelau yn unol â'u gweithdrefn gyhoeddedig.

36. Dylai Sefydliadau ystyried cynnwys cynrychiolwyr y dysgwyr yn y broses o wneud penderfyniadau.

CYNGOR I DDYSGWYR

Cyffredinol

37. Mae darparu cyngor ariannol i ddysgwr yn rhan allweddol o sicrhau y defnyddir y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn effeithiol.

38. Dylai Sefydliadau sicrhau bod dysgwyr sy'n ceisio cymorth gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael eu cynghori y gallai unrhyw daliadau a dderbynnir fod â goblygiadau o ran eu hawl i fudd-daliadau, yn enwedig Cymhorthdal Incwm a Chredyd Cynhwysol.

Y Cynnig Gofal Plant

39. Mae'r Cynnig yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth i rieni cymwys sydd â phlant 3 a 4 oed, a hynny am 48 wythnos y flwyddyn.

40. Yn ystod tymhorau ysgol mae hyn yn golygu o leiaf 10 awr o addysg gynnar (a ddarperir drwy Ddysgu Sylfaen) ac oriau ychwanegol o ofal plant wedi'u hariannu. Ar gyfer yr wythnosau gwyliau sydd ar gael o dan y Cynnig gall rhieni gael mynediad at 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu.

41. O fis Medi 2022 ymlaen mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi cael ei ymestyn i rieni mewn addysg a hyfforddiant.

42. Rhaid i rieni mewn addysg fod wedi cofrestru ar gwrs o leiaf 10 wythnos o hyd i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn ogystal â bodloni gofynion cymhwysedd eraill.

43. Nid yw'r Cynnig Gofal Plant yn cael blaenoriaeth dros gymorth arall, gan gynnwys y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylai rhieni gael cyngor a chanllawiau i'w helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu hopsiynau.

44. Gan mai dim ond 30 awr o ofal plant yr wythnos y mae'r Cynnig Gofal Plant yn eu darparu, gellir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu am oriau ychwanegol y gallai fod eu hangen ar rieni ynghyd â chostau eraill sy'n gysylltiedig â gofal plant nad ydynt yn dod o dan y Cynnig.

45. Er bod y risg o ddyblygu cyllid yn isel, dylid rhoi gwiriadau ar waith i sicrhau nad yw'r oriau sy'n dod o dan y Cynnig Gofal Plant yn cael eu cynnwys mewn unrhyw hawliadau a wneir gan rieni am gymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

46. Dylid cyfeirio dysgwyr a allai fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, neu sydd â diddordeb mewn cael gwybod rhagor, at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (http://www.gwybodaethgofalplant.cymru/home). Bydd y Gwasanaeth hwn yn gallu cynghori rhieni ynglŷn â'r Cynnig Gofal Plant, eu cymhwysedd, a chymorth arall allai fod ar gael iddyn nhw.

Ceiswyr Lloches

47. Yn gyffredinol, nid oes gan geiswyr lloches hawl i arian cyhoeddus. Mae gan blant sy'n ceisio lloches sydd yng nghwmni rhywun (y rheini sydd o dan 18 oed a chyda pherthynas neu bartner sy'n oedolyn) a'r rheini sy'n 18 oed ac yn hŷn hawl i addysg ond nid yw arian cyhoeddus ar gael iddynt. Gall ceiswyr lloches sy'n anghenus wneud cais i'r Swyddfa Gartref am lety addas ac arian parod ar gyfer hanfodion, ond nid ydynt yn gymwys am gymorth na chefnogaeth statudol i fyfyrwyr o ffynonellau eraill fel y Lwfans Cynhaliaeth Addysg na Chynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

48. Ar yr amod bod ceisiwr lloches yn cwrdd â'r amodau cymhwysedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 uchod, gall Sefydliadau ddarparu cymorth i ddysgwyr ar ffurf nwyddau fel llyfrau, cyfarpar, gofal plant neu bas teithio. Dylai Sefydliadau osgoi rhoi taliadau ariannol i geisiwr lloches oni bai ei fod yn blentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches.

49. Nid yw plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn cael cymorth ariannol gan y Swyddfa Gartref, a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt. Maent yn cael eu trin fel plant sy'n derbyn gofal a byddent yn perthyn i'r grwpiau â blaenoriaeth ym mharagraff 6 iii uchod, lle mae ganddynt angen ariannol.

50. Pan fydd y bobl ifanc hyn yn cyrraedd oedran oedolyn cyfreithiol yn 18 oed, rhaid i Sefydliadau ystyried eu statws mewnfudo. Os penderfynir o'u plaid o ran yr hawliad lloches, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r un cymorth a gwasanaethau iddynt ag y maent yn eu rhoi i blant sy'n gadael gofal. O'r herwydd, maent yn parhau i fod yn gymwys am gymorth.

51. Mae ceiswyr lloches y gwrthodwyd lloches iddynt ond sydd yn gymwys, ac y rhoddwyd cymorth iddynt o dan Adran 4 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999, yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Pan fo dysgwr yn cael cefnogaeth Adran 4, dylai'r Sefydliad

fodloni ei hun, cyn ystyried cais am gymorth, bod tebygolrwydd rhesymol y bydd y dysgwr yn gallu cwblhau ei raglen ddysgu.

Gwladolion Wcráin

52. Bydd gwladolion Wcráin sy'n cael eu cefnogi drwy un o Gynlluniau Fisa Wcráin Llywodraeth y DU yn gymwys ar unwaith i gael cyllid coleg ôl-16 a byddant yn cael eu heithrio o'n gofynion preswylio tair blynedd arferol. Mae'r cymhwysedd hwn yn ymestyn i gefnogaeth y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

TALIADAU I SEFYDLIADAU

Dyraniadau Ariannol

53. Ar gyfer 2023/24, mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cymeradwyo dyraniad o £6,880,000 ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae cyfanswm y dyraniad yn cynnwys £138,878 ychwanegol ar gael i'w ddosbarthu yn dilyn gweithgareddau ail-hawlio blynyddoedd blaenorol.

54. Mae'r dyraniadau cyllid i Sefydliadau wedi'u nodi yn y tabl isod.

Sefydliad	**Cyfanswm Dyraniad 2023/24**
Addysg Oedolion Cymru	£62,184.00
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	£340,226.00
Coleg Caerdydd a'r Fro	£786,131.00
Coleg Cambria	£677,877.00
Coleg Gwent	£1,140,230.00
Coleg Sir Gâr	£500,658.00
Coleg y Cymoedd	£768,755.00
Coleg Gŵyr	£671,341.00
Grŵp Llandrillo Menai	£720,671.00
Y Coleg, Merthyr Tudful	£566,168.00
Grŵp Castell-nedd Port Talbot	£284,497.00
Coleg Sir Benfro	£196,889.00
Coleg Catholig Dewi Sant	£247,616.00
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	£33,635.00
Y Brifysgol Agored	£22,000.00
CYFANSWM	**£7,018,878.00**

Taliadau i Sefydliadau

55. Bydd cyllid yn cael ei dalu i Sefydliadau mewn tri rhandaliad. Bydd y rhandaliadau'n cael eu gwneud ym mis Awst 2023, Rhagfyr 2023 ac Ebrill 2024 ar sail cymhareb o 40:30:30. Caiff llythyr cynnig grant penodol ei anfon cyn y rhandaliad cyntaf.

Cyllid nas gwariwyd

56. Rhaid i weddill unrhyw gyllid nas gwariwyd a llog sydd gan Sefydliad mewn cysylltiad â'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (uwchlaw yr hyn a gyfrifir o dan baragraff 57 ac sy'n parhau heb ei wario ar 31 Gorffennaf 2024) gael ei ddatgan i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Rhagfyr 2024 fan bellaf. Bydd unrhyw gyllid nas gwariwyd yn cael ei adhawlio yn llawn.

Costau cyhoeddusrwydd a gweinyddu

57. Caiff sefydliadau ddefnyddio 3% o gyfanswm y cyllid a ddyrannwyd iddynt neu £525, pa un bynnag yw'r swm mwyaf, i sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd effeithiol i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn a'i bod yn cael ei gweinyddu'n effeithiol.

ATEBOLRWYDD

58. Prif Swyddog Gweithredol (neu swyddog cyfatebol) y Sefydliad sy'n gyfrifol am:

    i gynghori Corff Llywodraethu'r Sefydliad ynglŷn â'i gyfrifoldebau o dan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn;

    ii sicrhau bod y ffyrdd y mae'r Sefydliad yn defnyddio ei ddyraniad o gyllid yn gyson â diben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ac y cydymffurfir â thelerau ac amodau'r canllawiau hyn; a

    iii cymryd pa gamau bynnag a fydd yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd i sicrhau bod system o reolaethau a dulliau rheoli ariannol ar waith, i alluogi'r Sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol.

59. Mae'n ofynnol i Sefydliadau roi sylw i'r cyngor a roddir yn y ddogfen *'Memorandwm Ariannol*[2] *rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch sy'n darparu addysg bellach'* a dilyn y trefniadau archwilio sydd yn y ddogfen.

60. Rhaid i Sefydliadau sicrhau bod unrhyw wybodaeth mewn cysylltiad â'u cyfrifon archwiliedig ar gael i Weinidogion Cymru os gofynnant amdani.

---

[2] Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch sy'n darparu addysg bellach, Dogfen Ganllaw: 160/2015 Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2015 (https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/financial-memorandum-for-fe-institutions-and-he-institutions-providing-further-education-in-wales.pdf)

Tystysgrif Archwilio

61. Erbyn 1 Rhagfyr 2024, bydd gofyn i Brif Swyddog Gweithredol (neu swyddog cyfatebol) y Sefydliad ddychwelyd tystysgrif archwilio, sy'n ardystio y talwyd y Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 i ddysgwyr erbyn diwedd y flwyddyn academaidd honno yn unol â'r canllaw hwn a'r telerau a'r amodau yn y llythyr cynnig grant.

62. Gofynnir hefyd i'r Prif Swyddog Gweithredol (neu'r swyddog cyfatebol) nodi unrhyw arian a llog a gariwyd ymlaen i 2024/25 a, lle bo hynny'n berthnasol, unrhyw danwariant ar ddyraniad 2023/24.

63. Ceir copi o'r dystysgrif archwilio ar gyfer 2023/24 yn Atodiad B.

Casglu data ar ddiwedd blwyddyn

64. Rhaid i Sefydliadau ddarparu adroddiad i Lywodraeth Cymru ar y defnydd o'r arian a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gyfer 2023/24 erbyn 31 Rhagfyr 2024.

Atodiad A: Anllaw Cymhwysedd Dysgwyr

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon ceir canllawiau manwl ar yr amodau preswylio sy'n berthnasol wrth benderfynu ar gymhwysedd dysgwr unigol am gyllid ôl-16. Mae unrhyw destun mewn print trwm yn y ddogfen hon wedi'i ddiffinio yn yr eirfa yn Atodiad A.

Er mwyn i ddysgwr fod yn gymwys i gael cyllid ar gyfer ei raglen ddysgu, rhaid bod ganddo'r hawl gyfreithiol i breswylio yn y **Deyrnas Unedig** (DU). Fel arfer, ni fydd person sy'n destun gorchymyn allgludo gan y Swyddfa Gartref yn gymwys i gael cyllid hyd nes y bydd y Swyddfa Gartref yn fodlon bod ei sefyllfa wedi'i datrys.

At ddibenion ariannu, dylid sefydlu cymhwysedd y dysgwr ar ddechrau ei raglen ddysgu. Fel arfer bydd dysgwyr sy'n gymwys i gael cyllid ar ddechrau eu rhaglen yn gymwys am gyllid drwy gydol eu rhaglen, yn ogystal ag unrhyw raglenni dysgu olynol a ariennir. Yn yr un modd, mae'n annhebygol y bydd y rhai nad ydynt yn gymwys i gael cyllid ar ddechrau eu rhaglen ddysgu yn dod yn gymwys yn ystod cyfnod eu rhaglen ddysgu.

Wrth benderfynu ar gymhwysedd dysgwr, dylai sefydliadau hefyd fodloni eu hunain bod tebygolrwydd rhesymol y bydd y dysgwr yn gallu cwblhau ei raglen ddysgu cyn cynnwys y dysgwr yn eu data cyllido. Dylai hyn gynnwys ystyried pa mor ymarferol yw darparu lle i ddysgwr na fydd o bosibl yn gallu cwblhau ei raglen os yw'n debygol o adael y wlad yn barhaol yn ystod ei raglen ddysgu.

Dylai sefydliadau ofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru pan fyddant yn cael trafferth asesu cymhwysedd dysgwr. Mewn amgylchiadau o'r fath, cysylltwch â'r tîm Cyllido a Monitro yn: post16planningandfunding@llyw.cymru

Dysgwyr yr UE a'r AEE

Ar 31 Ionawr 2020, peidiodd y Deyrnas Unedig â bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn swyddogol a dechreuodd ar gyfnod pontio pan oedd pob ymrwymiad blaenorol yn dal i fod yn berthnasol tra cynhelid trafodaethau ar berthynas newydd. Daeth y cyfnod pontio hwn i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae gan ddysgwyr sy'n ddinasyddion gwledydd yr UE (neu'r AEE) neu blant gweithwyr o Dwrci a ddechreuodd ar raglenni wedi'u hariannu ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 hawliau gwarchodedig ac mae'n rhaid eu trin yr un fath â myfyrwyr 'cartref'. Mae hyn yn golygu y byddant yn parhau i fod yn gymwys am gyllid ôl-16 am holl gyfnod eu rhaglen, yn ogystal ag unrhyw raglenni dysgu olynol heb unrhyw seibiant mewn astudiaethau ar wahân i gyfnodau gwyliau arferol.

Nid yw dysgwyr yr UE a'r AEE a ddaeth i'r DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020 yn gymwys yn awtomatig am gyllid ôl-16 ac mae'n rhaid iddynt allu dangos eu bod yn preswylio yn gyfreithlon yn y DU i gael eu hariannu.

Mae dinasyddion Iwerddon yn parhau i fod yn gymwys am gyllid ôl-16 gan fod eu hawliau wedi eu diogelu o ganlyniad i drefniant yr Ardal Deithio Gyffredin.

Y ddeddfwriaeth a'r canllawiau

Mae'r amodau preswylio sy'n berthnasol i gyllid ôl-16 yn seiliedig ar Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 (gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau diweddarach). Gellir gweld y Rheoliadau a'r diwygiadau diweddaraf yn:

Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007) (legislation.gov.uk)

Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2021 (legislation.gov.uk)

Mae'r amodau preswylio sy'n berthnasol i gyllid ôl-16 yr un fath ar draws y sector ôl-16. Mae'r rheolau hefyd yn gyson â'r amodau cymhwysedd a nodwyd yn y Cod Derbyn i Ysgolion a gyhoeddwyd o dan Adran 84 y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion. Mae'r cod hwn yn ei le o hyd a dylid ymgynghori ag ef ynglŷn â derbyniadau i ysgolion. Mae copi o'r cod i'w weld yn:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-derbyn-i-ysgolion.pdf

Dysgwyr sy'n gymwys i gael cyllid

I fod yn gymwys i gael cyllid ôl-16, fel arfer mae'n rhaid i ddysgwr allu bodloni'r tri gofyniad canlynol:

i. ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf ei gwrs (y **dyddiad perthnasol**), mae'r dysgwr yn preswylio fel arfer yn y DU;
ii. ar y dyddiad hwnnw mae'r dysgwr yn breswylydd **sefydlog** yn y DU; ac
iii. am dair blynedd cyn y dyddiad hwnnw, mae'r dysgwr wedi bod yn **preswylio fel arfer** yn y **DU a'r Ynysoedd** ac nid oedd unrhyw ran o'r cyfnod preswylio hwnnw, yn rhannol nac yn gyfan gwbl, at ddibenion cael addysg lawnamser.

At ddibenion ariannu, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i rywun sydd fel arfer yn preswylio yn y DU fod wedi gwneud eu cartref yn y DU gyda'r bwriad o aros a byw yma, ac nid at bwrpas dilyn cwrs astudio yn unig. Dylid anwybyddu absenoldebau dros dro o'r DU a'r Ynysoedd. Gellir trin dysgwr sydd wedi bod yn byw y tu allan i'r DU oherwydd ei fod ef neu ei deulu yn gweithio dramor dros dro fel person na tharfwyd ar ei breswyliad arferol.

Bydd yr unigolion canlynol yn gymwys i gael cyllid (mae'r grwpiau hyn yn cyfateb yn fras i'r categorïau sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007)**3**.

a. Person sy'n **wladolyn o'r DU** neu unigolyn arall sydd â **hawl preswylio** yn y DU ac sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd neu yn y Tiriogaethau Tramor Prydeinig am gyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol, neu aelodau o'i deulu.

b. Dinasyddion o Iwerddon sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd ac/neu Iwerddon am gyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

c. **Gwladolion o'r Undeb Ewropeaidd** (UE) neu **wladolion o'r AEE** sydd wedi cael statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog**4** o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ac sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr AEE, Gibraltar neu'r DU am dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol, neu aelodau o'u teulu.

d. **Gweithwyr o'r AEE** a **gweithwyr o'r Swistir** sydd â statws preswylydd cyn-sefydlog neu sefydlog sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU, yr AEE neu Gibraltar am dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol, neu aelodau o'u teulu.

---

3 Crynodeb o'r categorïau yn yr Atodlen, sydd yn hynod gymhleth. Os ydych o'r farn bod dysgwr neu ddarpar ddysgwr yn perthyn i gategori nad yw'n cael ei restru yma, cysylltwch â post16planningandfunding@llyw.cymru am arweiniad pellach.

4 Mae hyn hefyd yn cynnwys gwladolion o'r UE ac Aelodau o'u Teulu sy'n Ymuno sydd wedi cyflwyno cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE ar ôl 30 Mehefin 2021 ac sy'n aros am benderfyniad.

e. Plant **gweithwyr Twrcaidd** lle'r oedd y gweithiwr Twrcaidd yn cael ei gyflogi'n gyfreithlon ac yn preswylio yn y DU cyn 1 Ionawr 2021.

f. **Gwladolion o'r DU** oedd yn preswylio yn yr AEE cyn 1 Ionawr 2021 sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr AEE, Gibraltar neu'r DU am dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol ac sydd wedi preswylio yn barhaus yn yr AEE neu'r DU rhwng 31 Rhagfyr 2020 a'r dyddiad perthnasol, neu aelodau o'u teulu.

g. Unrhyw un sy'n cael ei gydnabod fel **ffoadur** gan Lywodraeth y DU ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y **DU a'r Ynysoedd** ers cael statws ffoadur, neu **aelod o deulu** unigolyn o'r fath.

h. Personau sydd â statws **diogelwch dyngarol** neu sydd â **chaniatâd yn ôl disgresiwn** neu sydd â **chaniatâd eithriadol i ddod neu i aros** neu **aelodau o'u teulu**.

i. Personau y dyfarnwyd iddynt ganiatâd i aros fel **person gwarchodedig** neu aelodau o'u teulu, gan gynnwys y rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt **aros fel person diwladwriaeth** neu berson sydd â **chaniatâd adran 67 i aros**.

j. Y rheini sydd â **chaniatâd Calais i aros.**

k. Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel **partner gwarchodedig** neu eu plant.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried gwladolyn o'r tu allan i'r AEE sydd yn y DU gyda **chaniatâd mewnfudo cysylltiedig â gwaith** yn gymwys i gael cyllid ar ôl iddo fod yn preswylio yn y DU am dair blynedd, neu **aelod o deulu** person o'r fath.

Bydd **ceiswyr lloches** a'u **dibynyddion** yn gymwys i gael cyllid ôl-16 cyn belled â'u bod yn cael cymorth dan un o'r canlynol:

i. Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.
ii. Deddf Plant 1989.
iii. Deddf Cymorth Gwladol 1948.

Bydd ceiswyr lloches y gwrthodwyd lloches iddynt ond sy'n gymwys i gael cymorth dan Adran 4 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, ac sydd wedi cael y cymorth hwnnw, yn gymwys i gael cyllid ôl-16.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ceisiwr lloches rhwng 16 ac 18 oed yn gymwys i gael cyllid, gan gynnwys unrhyw geiswyr lloches rhwng 16 ac 18 oed sydd ar eu pen eu hunain sydd wedi cael eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol.

Yn ogystal â'r grwpiau sydd wedi'u rhestru uchod, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried bod y grwpiau canlynol o ddysgwyr (gan gynnwys y rheini nad ydynt yn bodloni'r gofyniad preswylio 3 blynedd) yn gymwys i gael cyllid ôl-16:

a. Pobl 16–18 oed sy'n preswylio'n gyfreithlon yn y DU ac sy'n ddinasyddion Prydeinig neu ddinasyddion lwerddon, neu'r rheini sydd â **hawl preswylio** yn y DU.
b. Pobl 16–18 oed sy'n dod gyda rhieni neu sy'n ymuno â'u rhieni sydd â hawl preswylio neu sydd wedi cael caniatâd i ddod i'r DU neu i aros ynddi (gan gynnwys y rheini sydd wedi cael caniatâd i aros fel dibynyddion person â **Fisa Myfyrwyr**), neu'r rheini sy'n blant i ddiplomyddion.
c. Pobl 16-18 oed sydd wedi cael statws preswylydd cyn-sefydlog yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.
d. Pobl 16–18 oed sy'n ddibynyddion i athrawon sy'n dod i'r DU fel rhan o gynllun cyfnewid athrawon.
e. Pobl 16–18 oed sy'n ddibynyddion i aelodau'r Lluoedd Arfog Prydeinig sy'n gwasanaethu.
f. Pobl sydd wedi cael statws preswylydd sefydlog yn ddiweddar; sydd wedi cael **caniatâd amhenodol i aros**5; **hawl preswylio** neu ddinasyddiaeth Brydeinig yn y tair blynedd yn union cyn y dyddiad perthnasol.
g. Y rheini sydd â **chaniatâd i aros y tu allan i'r rheolau**.
h. Gŵr, gwraig neu bartner sifil person sydd â statws preswylydd sefydlog sy'n preswylio'n gyfreithlon yn y DU.
i. Gwladolion o Wcráin a gefnogir drwy'r **Cynllun Teuluoedd o Wcráin, y Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin**, neu **Gynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin** neu aelodau agos teulu person o'r fath.

Yn ogystal â'r dysgwyr hynny yn y categorïau sydd wedi'u rhestru uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried amgylchiadau eithriadol eraill ar sail pob achos yn unigol. Os ydych chi'n credu y dylai dysgwr gael ei ystyried i gael cyllid oherwydd amgylchiadau eithriadol, cysylltwch â : post16planningandfunding@llyw.cymru

Dysgwyr o Loegr

Mae dysgwyr sy'n croesi'r ffin i fynychu ysgolion neu sefydliadau AB cyfagos yn gymwys i gael cyllid ôl-16, yn unol â'r cytundebau dwyffordd anffurfiol gyda'r Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau. Fodd bynnag, ni ddylai sefydliadau fynd ati i farchnata eu darpariaeth i ddysgwyr sy'n hanu o Loegr.

Dylid ystyried dysgwyr o bob cenedl sy'n ddibynyddion i aelodau o'r Lluoedd Arfog Prydeinig sy'n gwasanaethu yn gymwys i gael cyllid gydol y cyfnod y byddant yn gwasanaethu ar yr un sail â phobl eraill sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru.

---

5 Mae hyn yn cynnwys Affganiaid sy'n gymwys o dan y polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (a elwid yn flaenorol yn ffurfiol yn Staff a Gyflogir yn Lleol o dan y polisi ar gyfer y rheini a oedd o dan fygythiad).

Dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cyllid ôl-16

Ni fydd dysgwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni sy'n cael eu cyllido gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) fel arfer yn gymwys i gael cyllid ôl-16, gan y bwriadwyd y cyllid i gynnwys eu rhaglenni dysgu yn eu cyfanrwydd. Mewn perthynas â phob rhaglen addysgol ychwanegol sy'n briodol i ddysgwyr unigol, dylid hawlio drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu, yn achos dysgwyr ar raglenni addysg uwch masnachfraint, eu darparwr addysg uwch lawn amser.

Adnoddau darparwyr

Cyfrifoldeb pob sefydliad unigol yw asesu cymhwysedd achosion unigol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch amodau preswylio mewn perthynas â dysgwyr sydd am fanteisio ar ddarpariaeth AB at: post16planningandfunding@llyw.cymru

Geirfa cymhwysedd dysgwyr

Ceisiwr lloches

Y rheini y mae eu ceisiadau am loches yn y Deyrnas Unedig yn cael eu hystyried gan y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd.

Dibynnydd

Yng nghyswllt ceisiwr lloches, diffinnir y rhain fel gŵr neu wraig, partner sifil, partner sy'n cyd-fyw, plentyn o dan 18 oed neu blentyn anabl dros 18 oed sydd wedi'i gynnwys yn y cais am loches.

Y Tiriogaethau Tramor Prydeinig

Yn cynnwys y tiriogaethau dibynnol canlynol:

- Anguilla
- Bermuda
- Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig
- Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India
- Ynysoedd Prydeinig y Wyryf
- Ynysoedd Cayman
- Ynysoedd Falkland
- Gibraltar
- Montserrat
- Ynysoedd Pitcairn
- St Helena, Ascension a Tristan da Cunha
- De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De
- Ynysoedd Turks a Caicos

Caniatâd Calais

Math o ganiatâd a roddwyd i'r rheini a ddaeth drosodd fel rhan o "ymarfer clirio Calais" rhwng Hydref 2016 a Gorffennaf 2017, oedd o dan 18 oed ar y pryd, ac oedd â chysylltiadau teuluol cydnabyddedig yn y DU.

Yr Undeb Ewropeaidd

Yn cynnwys aelod-wladwriaethau canlynol y Gymuned Ewropeaidd:

Awstria
Gwlad Belg
Bwlgaria
Gweriniaeth Cyprus
Croatia
Y Weriniaeth Tsiec
Denmarc
Estonia
Y Ffindir (gan gynnwys Ynysoedd Aland)
Ffrainc (gan gynnwys Adrannau Tramor Ffrainc yn Guadeloupe, Martinique, Guiana Ffrengig, Réunion a Saint-Pierre et Miquelon)
Yr Almaen (gan gynnwys Heligoland)
Gwlad Groeg
Hwngari
Iwerddon
Yr Eidal
Latfia
Lithwania
Lwcsembwrg
Malta
Yr Iseldiroedd
Gwlad Pwyl
Portiwgal (gan gynnwys yr Azores a Madeira)
Rwmania
Slofacia
Slofenia
Sbaen (gan gynnwys Ynysoedd Baleares, yr Ynysoedd Dedwydd, Ceuta a Melilla)
Sweden

Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

Yn cynnwys holl wledydd a thiriogaethau'r UE sydd wedi'u rhestru uchod, ynghyd â'r gwledydd canlynol:

Gwlad yr Iâ
Liechtenstein
Norwy
Y Swistir*

*Er mwyn cadw pethau'n syml i ddarparwyr sy'n gorfod asesu cymhwysedd dysgwyr am gyllid ôl-16, byddwn yn trin y Swistir fel gwlad sydd o fewn yr AEE. Yn ôl y gyfraith, nid yw'r Swistir yn rhan o'r AEE a gydnabyddir yn ffurfiol, ond mae ei gwladolion yn gymwys dan amryw o gytundebau rhyngwladol sydd wedi'u llofnodi gan lywodraeth y DU a llywodraeth y Swistir.

Gweithiwr o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd

Gwladolyn o'r AEE sy'n weithiwr, ar wahân i weithiwr trawsffiniol yr AEE, yn y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal â hyn, mae rhai categorïau penodol o bobl, gan gynnwys gweithwyr trawsffiniol yr AEE, gweithwyr trawsffiniol hunangyflogedig yr AEE neu weithwyr hunangyflogedig o'r AEE a allai fod yn gymwys i gael cyllid ôl-16. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar y categorïau hyn yn yr Atodlen i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007.

Aelod o deulu gwladolyn o'r UE neu weithiwr o'r AEE

Gŵr neu wraig neu bartner sifil gwladolyn o'r UE neu weithiwr o'r AEE, neu blentyn neu ŵyr/wyres neu riant neu nain/taid sy'n ddibynnol ar yr unigolyn, neu ar ŵr/gwraig neu bartner sifil yr unigolyn.

Caniatâd eithriadol i ddod neu i aros

Roedd hwn yn statws mewnfudo oedd yn cael ei ddefnyddio cyn Ebrill 2003. Rhoddid statws o'r fath i geisiwr lloches nad oedd, yn ôl y Swyddfa Gartref, yn bodloni'r diffiniad o ffoadur fel y'i diffinnir yn y Confensiwn Ffoaduriaid, ond yr oedd y Swyddfa Gartref wedi penderfynu y dylai gael aros yn y DU am resymau eraill.

Caniatâd i aros yn ôl disgresiwn

Caniatâd i aros yn y DU am resymau eithriadol. Weithiau rhoddir y statws hwn i berson sydd ddim yn gymwys i gael lloches ond a ddylai, ym marn y Swyddfa Gartref, gael aros am resymau eraill.

Diogelwch dyngarol Cyflwynwyd diogelwch dyngarol ym mis Ebrill 2003 i ddisodli'r polisi caniatâd eithriadol i aros, a'i fwriad yw darparu diogelwch i unigolion nad ydynt yn gymwys am ddiogelwch o dan y Confensiwn Ffoaduriaid. Gall y Swyddfa Gartref roi diogelwch dyngarol i rywun nad yw'n credu ei fod yn gymwys i gael lloches ond eu bod serch hynny mewn perygl o ddioddef niwed difrifol pe baent yn dychwelyd i'w gwlad wreiddiol.

Aelod o deulu person sydd â statws caniatâd i aros yn ôl disgresiwn neu statws diogelwch dyngarol

Person sy'n ŵr neu'n wraig, yn bartner sifil, neu'n blentyn i berson sydd â statws caniatâd i aros yn ôl disgresiwn neu statws diogelwch dyngarol; neu blentyn i ŵr/gwraig neu bartner sifil person sydd â statws caniatâd i aros yn ôl disgresiwn neu statws diogelwch dyngarol. Rhaid i'r aelod o deulu person o'r fath fod wedi bod yn aelod o'i deulu ar y dyddiad y gwnaeth y person ei gais am loches.

Caniatâd amhenodol i ddod neu i aros

Caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros yma heb unrhyw gyfyngiadau ar hyd eu harhosiad.

Caniatâd i ddod neu i aros

Person sydd wedi cael gwybod gan y Swyddfa Gartref nad yw'n gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur, ond ei fod, serch hynny, yn cael caniatâd i aros yn y DU. Fel arfer, mae person o'r fath yn cael statws Diogelwch Dyngarol neu Ganiatâd i Aros yn ôl Disgresiwn.

Caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau

Mae caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau yn cynnwys caniatâd i ddod i mewn neu i aros am resymau eithriadol ac / neu resymau tosturiol sy'n cwympo y tu allan i Reolau Mewnfudo'r DU.

Preswyliad arferol

Diffinnir hyn fel preswyliad fel rheol ac fel arfer yn y DU, o ddewis ac am bwrpas sefydlog gydol cyfnod a bennwyd, ar wahân i absenoldebau achlysurol neu dros dro.

Partner gwarchodedig

Person y rhoddir caniatâd iddynt aros yn y DU fel un ai dioddefwr trais domestig neu gam-drin domestig, neu fel partner mewn profedigaeth.

Person gwarchodedig

Yn cynnwys unigolion y rhoddir caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros ar sail diogelwch dyngarol, y rhai sydd â chaniatâd person diwladwriaeth, y rhai sydd a chaniatâd adran 67 i aros neu'r rhai sydd â chaniatâd Calais.

Ffoadur

Person y mae'r Swyddfa Gartref yn ei gydnabod fel ffoadur yn ôl disgrifiad Confensiwn Genefa 1951. Fel arfer, mae person sy'n cael statws ffoadur yn cael caniatâd i aros yn y DU am bum mlynedd, ac, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, gall wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros.

Aelod o deulu ffoadur

Person sy'n ŵr neu'n wraig, yn bartner sifil, neu'n blentyn i berson sydd â statws ffoadur; neu'n blentyn i ŵr/gwraig neu bartner sifil ffoadur.

Rhaid i'r aelod o deulu'r ffoadur fod wedi bod yn aelod o'i deulu ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches.

Dyddiad perthnasol

Mae'r term 'dyddiad perthnasol' yn cyfeirio at ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd (neu flwyddyn addysgu) gyntaf y cwrs. Diffinnir hyn fel:

a. 1 Medi os yw'r flwyddyn academaidd yn dechrau rhwng 1 Awst a 31 Rhagfyr.

b. 1 Ionawr os yw'r flwyddyn academaidd yn dechrau rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth.

c. 1 Ebrill os yw'r flwyddyn academaidd yn dechrau rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin.

d. 1 Gorffennaf os yw'r flwyddyn academaidd yn dechrau rhwng 1 Gorffennaf a 31 Gorffennaf.

Hawl preswylio

Yr hawl i fyw ac i weithio yn y Deyrnas Unedig. Mae'r rhai sydd â hawl preswylio yn cynnwys:

- Unigolion sy'n meddu ar Dystysgrif Hawl Preswylio
- Y rheini sydd â phasbort wedi'i arnodi i ddangos bod ganddynt hawl preswylio yn y DU.
- Dinasyddion Prydeinig (gan gynnwys y rheini sydd â thystysgrif frodori neu dystysgrif cofrestru fel Dinesydd Prydeinig).
- Dinasyddion Tiriogaethau Dibynnol Prydeinig (a elwir bellach yn Ddinasyddion Tiriogaethau Tramor Prydeinig)
- Gwladolion o Iwerddon.
- Gwladolion o'r UE neu'r AEE sydd â statws preswylydd sefydlog.
- Aelodau o deulu gweithwyr o'r AEE neu'r Swistir sydd â statws preswylydd sefydlog.

Caniatâd Adran 67 i aros

Person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016. Gelwir hyn hefyd yn ganiatâd o dan drefniant 'Dubs'.

Statws preswylydd sefydlog

Person sy'n breswylydd sefydlog yn y Deyrnas Unedig yn ôl ystyr adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971; mewn geiriau eraill, person sydd naill ai wedi cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yma neu sydd â hawl preswylio yn y DU.

Statws Preswylydd Sefydlog - Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Mae gan ddinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir ac aelodau o'u teulu a oedd yn byw yn y DU cyn diwedd y cyfnod pontio (31 Rhagfyr 2020) ac a barhaodd i fyw yn y DU ar ôl y dyddiad hwn hawliau dinasyddion o dan y Cytundeb Ymadael â'r UE, Cytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("y Cytundebau Ymadael").

Gall y rhai sy'n bodloni amodau'r Cytundebau Ymadael barhau i breswylio'n gyfreithlon yn y DU a mwynhau hawliau cysylltiedig. Mae hawliau'r rhai sy'n symud i'r DU ar ôl diwedd y cyfnod pontio (oni bai bod ganddynt hawliau dinasyddion fel aelod o deulu person sydd eisoes yn y DU) yn ddibynnol ar drefniadau fisa newydd y Swyddfa Gartref.

Gall y rhai sydd â hawliau dinasyddion wneud cais am statws preswylydd sefydlog
drwy **Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE** y Swyddfa Gartref. Byddant yn cael:

- Statws preswylydd sefydlog (hy caniatâd amhenodol i aros os ydynt wedi preswylio'n gyfreithlon yn y DU am leiafswm o bum mlynedd ddi-dor), neu
- Statws preswylydd cyn-sefydlog (hy caniatâd cyfyngedig i aros) os ydynt wedi preswylio yn y DU am gyfnod byrrach (unrhyw gyfnod preswyl o lai na phum mlynedd ddi-dor). Ar ôl pum mlynedd o breswyliad cyfreithlon di-dor yn y DU gallant wneud cais i newid y statws hwn i statws preswylydd sefydlog, a dylent wneud hynny cyn i'w statws preswylydd cyn-sefydlog ddod i ben.

Caniatâd diwladwriaeth

Person sydd â chaniatâd diwladwriaeth yw person sy'n dod i mewn i'r DU sydd wedi cael caniatâd i aros fel Person Diwladwriaeth yn unol â pharagraff 405 o'r Rheolau Mewnfudo.

Fisa myfyrwyr

Categori mewnfudo sy'n berthnasol i bobl sy'n dod i'r DU i ddilyn cwrs astudio mewn sefydliad addysgol yn y DU.

Gweithiwr o'r Swistir

Gwladolyn Swisaidd sy'n weithiwr, ar wahân i weithiwr trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal â hyn, mae rhai categorïau penodol o bobl, gan gynnwys gweithwyr trawsffiniol Swisaidd, gweithwyr trawsffiniol hunangyflogedig Swisaidd, neu weithwyr hunangyflogedig o'r Swistir, a allai fod yn gymwys i gael cyllid ôl-16. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar y categorïau hyn yn yr Atodlen i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007).

Gweithiwr Twrcaidd

Gwladolyn Twrcaidd sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig.

Y DU a'r Ynysoedd

Sef y DU, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

Cynllun Teuluoedd o Wcráin

Mae'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin yn caniatáu i ymgeiswyr ymuno ag aelodau o'u teulu neu ymestyn eu harhosiad yn y DU.

Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin

Mae'r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin yn caniatáu i wladolion Wcráin ac aelodau o'u teulu ddod i'r DU os oes ganddynt noddwr penodol o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin.

Aelod agos o'r teulu

Mewn perthynas â'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin a'r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin mae aelod agos o'r teulu yn cynnwys:

- Priod neu bartner sifil.
- Partner di-briod (yn byw gyda'i gilydd mewn perthynas ers o leiaf dwy flynedd).
- Plentyn sydd o dan 18 oed.
- Rhiant (yn achos y rhai sydd o dan 18 oed).
- Dyweddi neu bartner sifil arfaethedig.

Caniatâd mewnfudo cysylltiedig â gwaith

Sef bod â hawl i weithio yn y DU o dan un o'r categorïau mewnfudo cysylltiedig â gwaith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.ukba.homeoffice.gov.uk/visas-immigration/working/

Atodiad B: Tystysgrif Archwilio 2023/24

CRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN: TYSTYSGRIF ARCHWILIO

Enw'r Sefydliad:

Dileer yr opsiwn amherthnasol. I'w dychwelyd erbyn 1 Rhagfyr 2024

Opsiwn A:
Yr wyf yn ardystio bod yr holl Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn a dalwyd gan Lywodraeth Cymru i'r sefydliad hwn ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 wedi eu talu i fyfyrwyr erbyn diwedd y flwyddyn academaidd honno yn unol â thelerau ac amodau Canllawiau Cyllid Wrth Gefn Ariannol Addysg 2023/24 a'r llythyr yn cynnig y grant.

Opsiwn B:
Yr wyf yn ardystio nad oedd yr holl Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn a dalwyd gan Lywodraeth Cymru i'r sefydliad hwn ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 wedi eu talu i fyfyrwyr erbyn diwedd y flwyddyn academaidd honno. Er hynny, mae'r holl arian a dalwyd i fyfyrwyr wedi eu talu yn unol â'r telerau ac amodau Canllawiau Cyllid Wrth Gefn Ariannol Addysg 2023/24 a'r llythyr yn cynnig y grant.

Gwnaed trefniadau i ad-dalu* £..... i **Lywodraeth Cymru.**

Llofnod:

Atodiad 2 – Taflen Gwybodaeth

Eisiau cymorth ariannol wrth ddysgu Cymraeg?

Mae cymorth ar gael drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

I fod yn gymwys, rhaid i chi gadarnhau:

- ✓ **Eich bod yn wynebu caledi ariannol ac y byddai'n anodd cael mynediad i'ch hastudiaethau heb gymorth o'r fath,**
- ✓ **Eich bod wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol,**
- ✓ **Eich bod yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 31 Awst 2023 ac**
- ✓ **Eich bod yn breswyliwr yn y DU neu'r DE am o leiaf 3 blynedd.**

Mae'n bosib gwneud cais i dalu am y costau canlynol:

	Disgrifiad	Tystiolaeth sydd angen ei gynnwys gyda'r cais	Uchafswm Dyfarniad
Adnoddau - Cyfarpar / deunyddiau dysgu	Adnoddau hanfodol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth, megis llyfrau, dyfeisiadau digidol, mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer dosbarthiadau rhithiol	Derbynneb(au) yn nodi'r adnodd(au) a'r symiau	£200 mewn cyfnod o 12 mis
Costau Teithio - Milltiredd	Gellir hawlio £0.25 y filltir am y siwrnai ddwyffordd i fynychu gwers/sesiwn (hyd at 60 milltir fesul gwers/sesiwn)	Llenwi'r Ffurflen Gostau Teithio gyda dyddiadau'r siwrneiau a manylion y daith	£15 y wers/ sesiwn (£0.25 x 60 milltir)
Costau Teithio - Bws / Trên	Cost siwrnai i fynychu gwers/sesiwn	Copïau o'r tocynnau parcio, sy'n cynnwys y dyddiad a'r symiau	£15 y wers/ sesiwn
Costau Parcio	Cost Parcio wrth fynychu gwers/sesiwn	Copïau o'r tocynnau parcio, sy'n cynnwys y dyddiad a'r symiau	£5 y wers/ sesiwn
Ffi Arholiad	Ffi Arholiad	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu am arholiad (gan nodi'r swm)	Dibynnol ar yr arholiad (£20 - £32)
Gofal Plant	Gellir hawlio hyd at £5 yr awr am hyd at 3.5 awr am gost gofal plant pob gwers / sesiwn	Derbynneb gan ofalwr cofrestredig (gan nodi eu rhif cofrestredig). Manylion nifer y gwersi/ sesiynau.	£17.50 y plentyn pob gwers/sesiwn (3.5 awr x £5 yr awr)
Anableddau	Hyd at £10 y wers/ sesiwn i helpu gyda chostau ychwanegol oherwydd anableddau	Llythyr swyddogol yn darparu tystiolaeth	£10 y wers/ sesiwn

Noder nad oes modd gwneud cais am ffi y cwrs

Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan:

https://dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol/

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh
Llywodraeth Cymru Welsh Government
CYMRAEG Dysgu Learn

Atodiad 3 - Ffurflen Gais / Claim Form

Ffurflen Gais Cronfa Ariannol Wrth Gefn
Financial Contingency Fund Claim Form

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Gwybodaeth Dysgwr *Learner Details*		
Enw Llawn	*Full Name*	
Cyfeiriad	*Address*	
Tref/Dinas	*Town/City*	
Sir	*County*	
Cod Post	*Post Code*	
Rhif Ffôn	*Phone Number*	
E-bost	*E-mail*	
Dyddiad Geni	*Date of Birth*	

Manylion Banc (ar gyfer y taliad) *Bank Details (to receive payment)*		
Enw'r Cyfrif	*Account Name*	
Cod Didoli	*Sort Code*	
Rhif Cyfrif	*Account Number*	
Enw'r Banc	*Bank Name*	

Manylion Cwrs *Course Details*		
Darparwr Cwrs	*Course Provider*	
Eich Rhif Cofrestru	*Your Registration Number*	
Cyfeirnod y Cwrs	*Course Reference Number*	
Tiwtor y Cwrs	*Course Tutor*	
Lleoliad y Cwrs	*Course Location*	

Cyfnod y Cais *Claim Period*	
Cais o *Claim start date*	Hyd at *Claim end date*
(xx/xx/xxxx)	(xx/xx/xxxx)

Meini prawf cymhwysedd *Eligibility criteria*	
Cadarnhaf fod y canlynol yn berthnasol i mi: (rhaid i chi gadarnhau pob datganiad i fod yn gymwys) *I confirm that the following apply to me: (you must confirm all statements to be eligible)*	
Rwyf yn wynebu caledi ariannol ac y byddai'n anodd cael mynediad i'r astudiaethau heb gymorth o'r fath *I am facing financial hardship and it would be difficult to access the studies without such support*	
Rwyf wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol *I have registered for a learning Welsh course with one of the National Centre for Learning Welsh providers*	
Rwyf yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 31 Awst 2023 *I am 16 years old, or older, on 31 August 2023*	
Rwyf yn breswyliwr yn y DU neu'r DE am o leiaf 3 blynedd *I am an UK or EU Resident for at least 3 years*	

Gwybodaeth bellach *Further information*	
Ticiwch unrhyw flwch sy'n berthnasol i chi: *Please tick any box that applies to you:*	
Rwyf wedi fy nghofrestru yn anabl *I am registered disabled*	
Rwyf yn rhiant gydag anghenion gofal plant (plant o dan 18 mlwydd oed) *A parent with childcare needs (children under 18 years old)*	
Rwyf yn rhiant sengl gydag anghenion gofal plant (plant o dan 18 mlwydd oed) *A single parent with childcare needs (children under 18 years old)*	
Rwyf yn ofalwyr, wedi derbyn gofal, neu ar brawf, neu ddysgwr yr ystyrir eu bod o dan risg am reswm arall *A carer; have been in care, on probation or are otherwise considered at risk*	
Rwyf ar incwm isel (gall hyn gynnwys rhai ddim yn gymwys i gael cymhorthdal incwm neu ddysgwyr o deuluoedd ar incwm isel) *On low income, including learners who do not qualify for income support, or students from low income families*	
Yn wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd na fydd y teulu yn derbyn elfen plant y credyd cynhwysol ar 1 Medi sy'n dilyn eu penblwydd yn 19 *Facing particular financial difficulties because their families will cease to receive the children element of universal credit as of the 1st September following their 19th birthday*	
Yn preswylio mewn ardal â lefel gyffredinol o 190 neu is yn ôl rhestr sgorio WIMD y Llywodraeth (Defnydd Swyddfa yn unig) *Resident in an area with an overall ranking of 190 or less according to the latest Welsh Index of Multiple Deprivation (Office Use only)*	

Rhowch fanylion pellach i egluro unrhyw ateb uchod, gan gynnwys eglurhad am y caledi ariannol, i gefnogi'ch cais.

Please provide further details to clarify any of the above answers, including explanation of the Financial hardship faced, to support your application.

Math o Gost	Dyddiad	Manylion (gan gynnwys cyfanswm milltiredd os yn hawlio teithio)	Swm	Atodir Derbynneb?
Cost Type	*Date*	*Details (including mileage details if claiming travel costs)*	*Amount*	*Receipt Attached?*
CYFANSWM HAWLIAD *TOTAL CLAIM*			£	

Parhewch ar dudalen arall os oes angen
Continue on seperate sheet if required

Cofiwch:

- Mae uchafsymiau y gellir eu hawlio, a ni ddylid ceisio hawlio yn fwy na'r symiau yn y polisi. Gweler y polisi am fwy o fanylion.
- Cofiwch, mae'n rhaid cynnwys y dystiolaeth angenrheidiol yn unol â'r polisi. Ni fydd taliad yn cael ei weithredu heb y dystiolaeth gywir. Gwiriwch y polisi am y wybodaeth.

Remember:

- *There are limits to what can be claimed, and the amounts claimed should not exceed the allowance in the policy – please see policy for further details.*
- *Remember to include the necessary evidence as outlined in the policy. No payment will be made without the correct evidence. See policy for further details.*

Crynodeb Cais (manylion i'w rhoi ar y ffurflen gostau ar dudalen 3) *Claim Summary (details to be provided on costs form on page 3)*	
Cyfanswm Hawliad Gofal Plant *Childcare Claim Amount*	£
Cyfanswm Hawliad Ffi Arholi *Exam Fee Claim Amount*	£
Cyfanswm Hawliad Adnoddau *Resources Claim Amount*	£
Cyfanswm Hawliad Anabledd *Disability Claim Amount*	£
Cyfanswm Hawliad Costau Teithio *Travelling Costs Claim Amount*	£
Cyfanswm Cais (cydfynd a'r ffurflen gostau) ***Total Claim (balances to costs form)***	**£**

Datganiad Dysgwr *Learner Declaration*		
Cadarnhaf fod yr wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir a chyflawn a chytunaf y gall Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ofyn am wybodaeth bellach angenrheidiol mewn perthynas a'r cais.		
I confirm that the information on this form is correct and complete, and that I understand that The National Centre for Learning Welsh can ask for additional information in relation to the claim.		
Enw	*Name*	
Llofnod	*Signature*	
Dyddiad	*Date*	

Anfonwch at
Please send to

cyllid@dysgucymraeg.cymru

neu
or

Swyddog Trefniadaeth, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan:
https://dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol/

For more information, go to our website:
https://learnwelsh.cymru/support/financial-support/